Erthygl 4 Y Cyngor Llawn

4.01 Ystyron

(a) **Y Gyllideb a Fframwaith Polisi.**
Yr hyn a olygir wrth y gyllideb a fframwaith polisi yw'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:-

Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau
Cynllun Plant a Phobl Ifanc*
Strategaeth Gymunedol
Strategaeth Lleihau Troseddu ac Anhrefn
Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Cynllun Trafnidiaeth Lleol
Cynlluniau a newidiadau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Cynllun Datblygu Unedol
Cynllun Iaith Gymraeg
Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
Strategaeth Gorfforaethol
Strategaeth Dai

* Mae'r cynllun hwn yn cynnwys y Cynllun Addysg Sengl, Cynllun Partneriaeth Strategol Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc

Strategaethau eraill y penderfynir o bosibl o bryd i'w gilydd sy'n briodol i'w mabwysiadu gan y Cyngor

(b) **Cyllideb.** Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sail treth y cyngor, pennu treth y cyngor, a phenderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli gofynion y Cyngor o ran benthyca, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod terfynau ar drosglwyddo arian.

(c) **Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai**. Mae Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (boed hynny mewn ffurf drafft ai peidio) i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gymeradwyo rhaglen o waredu 500 neu fwy o dai i berson o dan Ddeddf Diwygio Prydles, Tai a Datblygiad Trefol 1993 neu i waredu tir a ddefnyddir i bwrpasau preswyl lle bo angen cymeradwyaeth o dan adrannau 32 neu 43 Deddf Tai 1985.

4.02 Swyddogaethau'r Cyngor llawn

Bydd y Cyngor yn ymarfer y swyddogaethau canlynol:

(a) mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;
(b) cymeradwyo neu fabwysiadu'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, awdurdodi gwneud cais i Drosglwyddo Tir ar gyfer Tai o dan baragraff 4(5) o'r Rheoliadau, a phennu Rhenti Tai.

(c) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn frys a gynhwysir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Cyflawni Swyddogaethau) a/neu (Benderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd), gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth gyflawni swyddogaeth weithredol yr ymdrinnir â hi gan y Fframwaith Polisi neu gan y Gyllideb lle mae'r sawl sy'n llunio penderfyniadau o blaid gwneud hynny mewn dull a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu yn groes i, neu heb fod yn gwbl unol â'r, Gyllideb;

(d) penodi'r Arweinydd, Dirprwy Arweinydd a chymeradwyo dirprwyo swyddogaethau gweithredol;

(e) penderfynu pa Bwyllgorau a Phaneli Ymgynghorol ac ati a sefydlir, cylch gwaith pob corff, nifer yr aelodau (sydd â phleidlais a heb bleidlais) fydd ar bob un ohonynt, a gwneud y penodiadau angenrheidiol i'r cyrff hyn.

(f) cytuno â/neu ddiwygio'r cylch gwaith ar gyfer pwyllgorau, gan benderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt;

(g) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol oni bai fod y penodiad yn swyddogaeth weithredol neu wedi ei ddirprwyo gan y Cyngor;

(h) mabwysiadu cynllun lwfansau i Aelodau;

(j) newid enw'r ardal, rhoi teitl henadur anrhydeddus neu dderbyn rhyddfreiniwr anrhydeddus.

(j) penodi Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, a dynodi'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151;

(k) gwneud, diwygio, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Fesurau personol;

(l) mabwysiadu Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau;

(m) gweithredu'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â dewis lleol a gyflwynir yn Rhan 6.3 o'r Cyfansoddiad hwn y penderfyna'r Cyngor y dylid eu cyflawni ganddo ef ei hun yn hytrach na chan y Bwrdd Gweithredol; ac na ddirprwyir i unrhyw un o'i bwyllgorau nac i'w swyddogion;

(n) gwneud penderfyniadau ar swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol ac nad ydynt wedi'u dirprwyo gan y Cyngor i bwyllgorau neu i swyddogion. Mae'r rhain yn cynnwys;

  i. Pŵer i gyflwyno cynigion i Lywodraeth Cynulliad Cymru am Orchymyn o dan Adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000;
  ii. Pŵer i newid enw cymuned
  iii. Gorchmynion Pwrcasu Gorfodol;
  iv. Pŵer i lunio rheolau gweithdrefn;
  v. Pŵer i wneud Rheolau Sefydlog ynglŷn â Chontractau a Rheoliadau Ariannol;

(o) cymeradwyo dirprwyo swyddogaethau anweithredol i bwyllgorau a swyddogion;

(p) pob mater arall y mae'n rhaid, yn unol â'r gyfraith, eu cadw i'r Cyngor;

(q) bod yn gyfrwng lle gall Aelodau ofyn cwestiynau ar faterion sy'n berthnasol i faes gwaith y Cyngor a dod â chynigion gerbron ar gyfer cael trafodaeth;

(r) derbyn adroddiadau oddi wrth Bwyllgorau ar faterion a ddirprwywyd iddynt a rhoi cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ar yr adroddiadau hynny;

(s) derbyn a chadarnhau neu wrthod argymhellion y Pwyllgorau ar swyddogaethau anweithredol nad ydynt o fewn eu dirprwyaeth neu y mae'r Pwyllgor wedi'u cyfeirio at y Cyngor am benderfyniad, galluogi Aelodau i ofyn cwestiynau, cynnig gwelliannau, neu i wneud penderfyniad neu benderfyniadau arnynt sydd yn eu barn hwy yn briodol;

4.3 Cyfarfodydd y Cyngor

Ceir tri math o gyfarfod y Cyngor:

y cyfarfod blynyddol;
cyfarfodydd cyffredin;
cyfarfodydd arbennig sydd yn cynnwys cyfarfodydd ar gyfer "darlleniad cyntaf" cynigion o bwys ynghylch polisi a strategaeth;

ac fe'u cynhelir yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

4.4 Cyfrifoldeb am swyddogaethau

Bydd y Cyngor yn cynnal y tablau yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad hwn sy'n cyflwyno'r cyfrifoldebau am swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol.